

Taflen 4

Gweithgaredd 6: Rhagfarn a Phropaganda

Taflen Waith Myfyrwyr

Tasg 1

Mae Geiriadur Saesneg Collins yn diffinio propaganda fel: “gwybodaeth, yn aml gwybodaeth anghywir, y mae sefydliad gwleidyddol yn ei chyhoeddi neu'n ei darlledu er mwyn dylanwadu ar bobl”.¹

Ysgrifennwch pa effaith y credwch y gallai propaganda ei chael ar gymdeithas a/neu fywydau bob dydd os na wneir rhywbeth yn ei gylch.

.....

.....

.....

.....

Tasg 2

2.1. Gan weithio mewn parau, darllenwch **Taflen 1: Cefndir i Bropropaganda'r Natsïaid**. Dylai un ohonoch ddarllen tudalen gyntaf y daflen a dylai'r llall ddarllen yr ail dudalen. Yna trafodwch gyda'ch gilydd yr hyn rydych chi wedi'i ddysgu.

Nesaf, ysgrifennwch dri pheth a ddysgoch o'r daflen hon.

1.....

2.....

3.....

¹ Collins, *Definition of 'propaganda'* <<https://www.collinsdictionary.com/dictionary/english/propaganda>> [cyrchwyd 11 Ebrill 2022].



Gweithgaredd 6: Rhagfarn a Phropaganda

Taflen Waith Myfyrwyr

Tasg 2 (parhad)

2.2. Nawr darllenwch **Taflen 2: Grwpiau Ieuenctid Natsiaidd**.

Yna, gan weithio mewn parau/grwpiau, atebwch y cwestiynau canlynol:

Disgrifiwch y poster. Ceisiwch gynnwys pethau fel yr elfennau gweledol, pwy oedd y gynulleidfa arfaethedig a'r neges a fwriadwyd.

.....
.....
.....
.....

Nodwch dri gweithgaredd neu ddull gwahanol a ddefnyddiodd Ieuenctid Hitler a Chynghrair Merched yr Almaen i hyrwyddo ideoleg a pholisi'r Natsiaid.

1.....
2.....
3.....

Tasg 3

3.1. Darllenwch y bywgraffiadau canlynol ar gyfer Irene Kirstein Watts ac Ellen Kerry Davis.



Taflen Waith Myfyrwyr

Tasg 3 (parhad)

Bywgraffiad Irene Kirstein Watts

Ganed Irene Kirstein Watts ar 24 Mai 1931 yn Berlin, yr Almaen. Fe'i magwyd mewn teulu Iddewig Uniongred.

Cafodd Irene a'i theulu eu herlid gan y Natsïaid yn ystod y cyfnod cyn y rhyfel a chafodd ei thad, Zigmund Kirstein, ei garcharu yng Ngwersyll Crynhoi Sachsenhausen. Ym mis Rhagfyr 1938, aeth Irene ar fwrdd y Kindertransport i'r Deyrnas Unedig. Fe fu hi'n byw yn Lloegr i ddechrau ond pan ddechreuodd y rhyfel, cafodd ei symud i Lanelli, Cymru. Yn ddiweddarach dihangodd rhieni Irene i'r Deyrnas Unedig yn ystod y rhyfel ac yn y pen draw buont yn byw yn Abertawe.

Ymfudodd Irene, ei gŵr a'u pedwar o blant i Ganada ym 1968.

Cafodd Irene ei chyfweld ar 28 Mehefin 1998 yn White Rock, Columbia Brydeinig, Canada.

Bywgraffiad Ellen Kerry Davis

Ganed Ellen Kerry Davis ar 1 Medi 1929 yn nhref Hoof yn Kassel, yr Almaen.

Fe'i magwyd mewn teulu Iddewig Uniongred ac roedd ei thad yn gweithio ym musnes y teulu (siop gig Iddewig). Cafodd y teulu eu gwahardd o'r busnes hwn ac rhag ennill bywoliaeth gan gyfreithiau gwrth-Iddewig y llywodraeth Natsïaidd yn ystod y cyfnod cyn y rhyfel. Cipiwyd cartref Ellen gan y Natsïaid a gorfodwyd y teulu i fyw mewn un ystafell yn synagog y dref. Ym 1937, pan oedd Ellen yn wyth oed, llosgodd grŵp o ieuencid Natsïaid y synagog yn y nos ac ymosod ar y teulu â bricks. Cawsant eu hachub a'u cuddio gan deulu lleol nad oedd yn Iddewon. Carcharwyd tad Ellen yng Ngwersyll Crynhoi Dachau ond dihangodd wedi hynny ac ymuno â Chorfflu'r Aroleswyr (Pioneer Corps) ac yn ddiweddarach bu'n byw yn Awstralia.

Ar 30 Mehefin 1939, aeth Ellen ar fwrdd y Kindertransport i'r Deyrnas Unedig a chafodd ei mabwysiadu gan gwpl oedrannus, di-blant yn Abertawe. Ym mis Rhagfyr 1941, alltudiwyd mam Ellen a chwech o'i brodyr a'i chwiorydd (yr hynaf yn 11 oed, yr ieuengaf yn ddwy) i Riga a chawsant eu saethu a'u lladd gan y Natsïaid ar ôl cyrraedd (neu eu cydweithredwyr).

Mae gan Ellen fab a merch a dau o wyrion. Cafodd ei chyfweld ar 6 Mai 1996 yn Cincinnati, Ohio, UDA.

Gweithgaredd 6: Rhagfarn a Phropaganda

Taflen Waith Myfyrwyr

Tasg 3 (parhad)

3.2. Nesaf, gwylwch ddau fideo byr:

- a) Clip fideo o Irene yn disgrifio profiad a gafodd yn blentyn yn Berlin, yr Almaen yn y 1930au.
- b) Clip fideo o Ellen yn disgrifio profiad a gafodd fel plentyn yn Hoof, yr Almaen ym 1937.

3.3. Yna, gan weithio mewn parau neu grwpiau bach, cwblhewch y Tasgau canlynol:

Ysgrifennwch dair ffordd, yn ôl Irene, roedd yr orymdaith y bu'n dyst iddi yn un “dramatig a theatrig”.

- 1.....
- 2.....
- 3.....

Pam ydych chi'n meddwl bod y Blaid Natsïaidd wedi targedu ieuencid yr Almaen fel cynulleidfa arbennig ar gyfer ei phropaganda?

.....

.....

.....

.....

Beth mae tystiolaeth Ellen yn ei ddatgelu am effaith propaganda/grwpiau ieuencid ar bobl ifanc yn yr Almaen Natsïaidd?

.....

.....

.....



Taflen 4

Gweithgaredd 6: Rhagfarn a Phropaganda

Taflen Waith Myfyrwyr

Tasg 3 (parhad)

.....

.....

.....

Ydych chi'n meddwl bod y llanciau a geisiodd ladd Ellen a'i theulu yn 1937 wedi cael eu 'cyflyru' (*brainwashed*) gan bropaganda'r Natsïaid? Meddyliwch yn ôl i'r hyn a ddysgoch o **Daflen 1**. A oedd unrhyw ffactorau a allai fod wedi dylanwadu ar lwyddiant bropaganda'r Natsïaid ar y bobl ifanc hyn?

.....

.....

.....

.....

.....

.....

Tasg 4

4.1. Darllenwch y wybodaeth ganlynol o Community Security Trust Report 2021:²

Ni ddaeth gwrthsemitiaeth i ben gyda'r Holocaust. Mae gwrthsemitiaeth heddiw yn cynnwys (ond nid yw'n gyfyngedig i) ymosodiadau treisgar ar Iddewon, fandaliaeth synagogau, mynwentydd neu ysgolion Iddewig, damcaniaethau cynllwynio bod Iddewon yn rheoli llywodraethau, banciau a'r cyfryngau a gwadu'r Holocaust.

² Community Security Trust, *Antisemitic Incidents Report 2021* (2021) <<https://cst.org.uk/data/file/f/f/Incidents%20Report%202021.1644318940.pdf>> [cyrchwyd 10 Ebrill 2022].



Gweithgaredd 6: Rhagfarn a Phropaganda

Taflen Waith Myfyrwyr

Tasg 4 (parhad)

Mae'r Ymddiriedolaeth Diogelwch Cymunedol (CST) yn elusen yn y DU sy'n ceisio amddiffyn Iddewon ym Mhrydain rhag gwrthsemitiaeth. Adroddodd Adroddiad Digwyddiadau Gwrthsemitaidd CST 2021 2,255 o ddigwyddiadau casineb gwrth-Iddewig yn 2021. Roedd hyn yn gynydd o 34% o gymharu â 2020. Un nodwedd a amlygwyd gan yr adroddiad yw'r duedd mewn digwyddiadau gwrthsemitig sy'n gysylltiedig â phandemig COVID 19. Dyma enghraifft o sut mae'r rhai sy'n cyflawni gwrthsemitiaeth yn addasu i, ac yn manteisio ar, yr ansicrwydd presennol mewn cymdeithas i hybu rhagfarn atgas.

Mae adroddiad CST yn nodi'r ystod annifyr o ddamcaniaethau cynllwynio sy'n cysylltu rhyngwladol gwrthsemitig â COVID 19, gan gynnwys y myth bod Iddewon yn gyfrifol am greu a lledaenu COVID 19 a'r naratif bod cyfyngiadau cloi neu gyflwyno brechlyn yn debyg i erledigaeth Iddewon yn yr Holocost.

4.2. Gan weithio mewn paru/grwpiau, ysgrifennwch ddau beth a ddysgoch o Adroddiad CST 2021:

1.....

2.....

Tasg 5

Efallai y bydd rhai negeseuon ar y cyfryngau neu bropaganda yn cael eu cyfleu am resymau cadarnhaol. Er enghraifft, gall asiantaeth y llywodraeth, fel Iechyd Cyhoeddus Cymru, ddefnyddio ymgyrch yn y cyfryngau i hybu iechyd, fel ymgyrchoedd gwrthysmygu neu wrthgyffuriau. Sut allwch chi adnabod propaganda peryglus mewn negeseuon ar y cyfryngau (e.e., ar TikTok, Instagram neu YouTube)? Ysgrifennwch bum cwestiwn y gallwch eu gofyn i chi'ch hun i helpu i werthuso neges ar y cyfryngau yn feiriadol.

1.....

2.....

3.....

4.....

5.....



Gweithgaredd 6: Rhagfarn a Phropaganda

Taflen Waith Myfyrwyr

Tasg 5 (parhad)

Nodwch ffyrdd y gallech chi herio propaganda, rhagfarn neu iaith casineb mewn negeseuon a welwch ar y cyfryngau.

.....
.....
.....

Ysgrifennwch fanifesto pum pwynt ar gyfer myfyrwyr oed ysgol uwchradd sydd wedi'i gynllunio i godi ymwybyddiaeth o rôl a dylanwad y cyfryngau ar y grŵp oedran hwn, esbonio sut i werthuso negeseuon ar y cyfryngau, a herio rhagfarn a phropaganda.

.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....



Gweithgaredd 6: Rhagfarn a Phropaganda

Taflen Waith Myfyrwyr

Tasg 5 (parhad)

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....



© 2022 Jewish History Association of South
Wales / Cymdeithas Hanes Iddewig De Cymru

© 2022 USC Shoah Foundation